PET(4) SAR 07
Y Pwyllgor Deisebau
Ymgynghoriad ar ddeiseb P-04-432 Atal Recriwtio i’r Fyddin mewn Ysgolion
Ymateb gan Dr Gwyn Williams

Diolch am y cyfle i ymateb i'r ddeiseb yn erbyn recriwtio’r fyddin mewn ysgolion.

Fel y gwyddoch, mae Prydain yn recrwtio plant 16 oed i'r fyddin. Mae hyn wedi ei gondemnio gan y Cenhedloedd Unedig, a Phrydain yw'r unig wlad o fewn NATO sy'n caniatáu hyn. Yn wir, dim ond ryw 20 o wledydd yn y byd sy'n gwneud a'r rheini fel rheol yn llywodraethau gormesol.

Y brif ffordd mae'r fyddin yn recriwtio'r plant yma yw drwy ymweld ag ysgolion. Mae'r plant yma sy'n cael eu targedu ( sydd yn rhy ifanc i bleidleisio) yn cael eu denu gydag adnoddau deniadol ac arddangosfeydd sydd yn rhoi cam argraff iddynt o brif bwrpas y fyddin. Ychydig iawn, os o gwbl, y sonnir am faint o fywydau ifanc sy'n cael eu colli neu glwyfo. Yn ôl un swyddog o'r fyddin mae'r arddangosfeydd wedi eu hanelu at blant sydd ym mlynyddoedd 9,10 ac 11. Mae'r swyddogion wedi eu hyfforddi fel "skilled salsemen" gan ddefnyddio gemau fideo hyd yn oed i wneud gwaith milwr ymddangos yn ddeniadol. Mae dylanwadu ar blant fel hyn yn anfoesol.

Targedir ardaloedd difreintiedig ein gwlad. Yn ôl y ffigyrau a welais roedd 50% mwy o ymweliadau i ysgolion yn yr ardaloedd yma (drwy ddefnyddio rhifau derbyn cinio rhad). Mae tua 50% o'r plant sy'n cael eu recriwtio hefo oed darllen sy'n cyfateb i blentyn 11 oed neu lai. Dydy llawer o'r plant yma â rewcrwtir ddim yn sylweddoli arwyddocâd y cytundeb a arwyddant. Nid oes modd gadael y fyddin ar ôl chwe mis heb ganiatâd arbennig ac yn anaml iawn y rhoir hwnnw. Felly bydd llawer ohonynt yno yn groes i’w dymuniad nes byddent yn 22 oed. Nid yw'n syndod felly bod nifer yr hunanladdiadau ymysg y bobol ifanc yma yn 50% yn fwy na'r rhai nad ydynt yn y fyddin. Ond mae llawer hefyd yn dioddef o anabledd neu drawma, ffeithiau na cheir fawr ddim sôn amdanynt wrth recriwtio.

Mae'r sefyllfa economaidd yn siŵr o fod yn dylanwadu ar benderfyniad rhai i ymuno ac mae rhai yn meddwl efallai y byddent yn cael cyfleoedd yn y fyddin na fyddai'n bosib fel arall. Ni ddylai hyn fod yn wir gan fod hawl gan bawb i gael addysg nes y byddent yn ddeunaw oed. Fe ddylai'r cyfleoedd yma fod ar gael heb ofyn i blant aberthu eu bywydau i’w cael. Darllenais fod £80 miliwn yn cael ei wario ar recriwtio, fe ddylid defnyddio'r arian i roi cyfleoedd gwaith a hyfforddiant iddynt.

Roedd plant o dan 18 oed, yn cael eu danfon i faes y gad nes i hynny gael ei wahardd gan gyfraith ryngwladol yn ddiweddar. Prysured y dydd y bydd recriwtio plant 16 oed hefyd yn cael ei wahardd. Y canran a recriwtir ar gyfartaledd o wledydd Prydain i'r fyddin yw 5% ond yng Nghymru mae'r ffigwr yma yn 9% . Â yw'r Cynulliad yn meddwl fod hyn yn dderbyniol? Y modd y mae hyn yn cael ei weithredu yw drwy ganiatáu i'r fyddin recriwtio mewn ysgolion. Yn ôl y swyddog y cyfeiriais ato yn barod mae mynd i'r ysgolion yn fwy effeithiol nag unrhyw ffordd arall i gael plant i recriwtio. Ac mae'n ymddangos nad yw llawer o bwys pa mor ifanc ydynt na pha mor un ochrog yw'r dull sy'n cael ei ddefnyddio.

Anogaf chi i wrthod caniatâd i'r fyddin i ymweld ag ysgolion Cymru.

Gwyn Williams

Dr Gwyn Williams, [redacted]